2.57



# GALARUS
# GOFFADWRIAETH

AM Y

## DDAMWAIN ECHRYDUS

A GYMERODD LE YN

## Nglofa Carnant,

Cwmaman, Sir Gaerfyrddin, boreu dydd Mercher, Ionawr 16eg, 1884.

Tra yr oedd y glowyr yn cael eu gollwng i lawr at eu gwaith, dygwyddodd i'r rhaff dori, a chyffyrddodd deg ohonynt a marwolaeth sydyn a dychrynllyd. Eu henwau oeddynt:—

W. 3485.

David Roberts, gwr priod a phump o blant, Brynaman; Thomas Bevan, gwr priod a thri o blant, Cwmaman; Wm. Lake, gwr priod a tri o blant, Cross Inn; Thomas Michael, priod, Cwmaman; John Evan Jones, sengl, Cwmaman; John D. James, sengl, Cwmaman; Evan Roberts, bachgenyn, Brynaman; Thos. Roberts, bachgenyn, Brynaman; Daniel Rees, bachgenyn, Cwmaman; a Edward Morgan, bachgenyn, Brynaman.

Ffyrdd Duw sydd dan y ddaear,
Ac yn y dyfnder mawr,
Uwch dirnad ac amgyffred
Trigolion daear lawr;
Ie, trefn fawr Ragluniaeth
A'i odiaeth droion cudd,
I bawb o'r teulu dynol
Yn berffaith ddirgel sydd.

Mae dyn yn fod cyfrifol—
Rhaid rhoddi cyfrif oll
O flaen y Barnwr Cyfiawn,
Heb un i fyn'd ar goll;
Mewn awr pryd na feddyliom
Cawn deimlo dirfawr boen,

X2C520 5118

A'n gwysio fry gan Angeu
  O flaen yr addfwyn Oen!

Mae miloedd yn y boreu
  O'r ie'nctyd hawddgar hardd—
Serchogrwydd ar eu gruddiau
  Fel rhosyn gwridog gardd,
Ond cyn y nos lle byddant?—
  Yn nhrag'wyddoldeb maith!
O! am gael Iesu'n gyfaill
  Cyn dechreu'r ddirfawr daith.

Y glowyr o Bwll Garnant
  Yn foreu aeth i'r gwaith,
Er cwpla i fyn'd i'r angladd,
  Heb feddwl bod yn faith;
Yr unfed dydd ar bymtheg
  O Ionawr, cofiwch hyn,
Pan gafodd deg eu diwedd—
  O! chwerw foreu syn.

Pan ar eu ffordd i'r gwaelod
  Y rhaff a dorai'n ddwy,
Nes oeddynt oll yn ddrylliau,
  A phrofi marwol glwy',
Gan adael eu teuluoedd—
  Mewn cwsg yn esmwythau—
Gan wynebu trag'wyddoldeb,
  'Nol colli'r bywydau brau.

1884 Galarus goffadwriaeth Cwmaman

[ Accident. 10 lives lost]



Y gaffer aeth i'r gwaelod,
A chafodd olwg fawr;
Eu cyrff o'ent wedi eu dryllio,
A'u gwaed yn lliwio'r llawr;
Rhyw fynyd fach cyn hyny
Yn iach yn myn'd i'r gwaith,
Heb feddwl am wynebu
Y tragwyddoldeb maith.

'Does neb a haedd'u barchu
Yn fwy na'r glowyr cu;
Beunydd maent mewn peryglon
O dan y ddaear ddu,
Yn cloddio'r trysor gwerthfawr
Sydd raid ei gael bob dydd,
Er cynal eu teuluoedd,
O chwerw brofiad prudd!

Yr Arglwydd fyddo'n nodded
I'r rhai sy'n brudd eu bron,
Yn wylo dagrau heilltion
Trwy'r ddamwain erchyll hon;
Tad ydyw i'r amddifad,
A gwr i'r weddw brudd,
Sy'n wylo ac och'neidio
Yn gyson nos a dydd!

HUGH ROBERTS
(PERERIN MÔN).